# PWYLLGOR PERSONÉL

**(Drwy Microsoft Teams)**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | **29 Tachwedd 2021** |
| **Cadeirydd:** | **Y Cynghorydd D.Jones** |
| **Y Cynghorwyr:** | S.Bamsey, S.E.Freeguard, N.T.Hunt, J.Jones, S.A.Knoyle, E.V.Latham ac A.J.Taylor |
| **Aelodau nad ydynt yn Pleidleisio:** | Y Cynghorwyr L.Jones |
| **Swyddogion yn bresennol:** | S Rees, C Lewis, A.Hutchings a N.Jones |

---

1. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol - 20 Medi 2021**

   Penderfynwyd nodi cofnodion cyfarfod 20 Medi.

2. **Blaenraglen Waith**

   Nodi'r Blaenraglen Waith

3. **Y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd 2022/2023**

   Rhoddodd y Swyddogion drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd i'r Aelodau.

   **PENDERFYNWYD:** Y byddai aelodau'n cymeradwyo'r cais mewn perthynas â threfniadau gwyliau'r Nadolig/y Flwyddyn Newydd ar gyfer 2022/23.

4. **Adroddiad Monitro: Defnydd o asiantaethau**

   Rhoddodd y swyddogion drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

   Gofynnodd yr Aelodau pam y mae 88% o staff asiantaeth yn gweithio i adran yr Amgylchedd a Gofal Strydoedd. Nododd y Swyddogion fod nifer o resymau megis er mwyn defnyddio gweithwyr asiantaeth i

gyflenwi yn y tymor byr, a chynyddu hyblygrwydd y gweithlu. Dyma un faes lle gall fod yn fwy cost effeithiol i gyflogi gweithwyr asiantaeth os oes angen am staff yn y tymor byr - yn wahanol i wasanaethau eraill, lle mae'r defnydd o weithwyr asiantaeth yn llawer drutach na gweithlu a gyflogir yn uniongyrchol. Roedd y defnydd o asiantaethau wedi cael ei fonitro'n flynyddol. Yn flaenorol, y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn cynhyrchu'r gwariant mwyaf ond mae wedi lleihau'n sylweddol dros y 5 mlynedd diwethaf. Y gwasanaeth ailgylchu a gwastraff yw'r gwasanaeth sy'n gwario'r mwyaf bob tro, gan mai gwasanaeth rheng flaen yw hwn, ac os nad yw pobl ar gael i weithio ar fyr rybydd er enghraifft, mae angen dod o hyd i staff yn gyflym. Nododd y Swyddogion y byddent yn adrodd yn ôl am y sylwadau i'r pennaeth gwasanaeth perthnasol, ac yn gofyn a oes modd iddo ddarparu unrhyw fanylion pellach i'r Aelodau am y pwynt hwn. .

Gofynnodd yr Aelodau a oedd COVID wedi effeithio ar hyn. Nododd Swyddogion fod COVID yn ffactor a hefyd roedd y gwasanaeth sbwriel yn ei chael hi'n anodd oherwydd mae'r gofyniad cadw pellter cymdeithasol yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth, ac felly cyflogwyd pobl ychwanegol er mwyn cynnal y pellter cymdeithasol.

Diolchodd yr Aelodau i'r timau sbwriel am eu gwaith dros y 18 mis diwethaf a llongyfarchwyd â nhw am eu holl ymdrechion.

**PENDERFYNWYD:** y byddai'r Aelodau'n nodi'r wybodaeth ar y defnydd o asiantaethau a'r adroddiad gwariant.

## 5. Adborth o arolwg y gweithwyr rheng flaen

Rhoddodd y swyddogion drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD**: Y dylai aelodau nodi canlyniadau'r arolwg a'r camau gweithredu cysylltiedig, a'r diweddariad mewn perthynas ag arferion gweithio.

## 6. Adroddiad Diweddaru Cynllun Gweithredu Addewid Cyflogwyr Amser i Newid Cymru

Rhoddodd y swyddogion drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD**: Y byddai'r Aelodau'n nodi'r diweddariad mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Amser i Newid Cymru ac yn rhoi diweddariad pellach mewn chwe mis.

7. **Trafodaethau Cyflog Cenedlaethol mis Tachwedd 2021**

Rhoddodd y swyddogion drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Mewn perthynas â'r pyst a hysbysebwyd yn allanol ac yn fewnol, roedd yr Aelodau am gael eglurhad ynghylch a a b ar dudalen 2. Esboniodd swyddogion fod tudalen 2 yn nodi'r hyn a oedd ar waith ar hyn o bryd ac mai'r cynnig oedd cael gwared ar y cyfyngiadau.

**PENDERFYNWYD**: (a) Cael gwared ar gyfyngiadau recriwtio.
(b) Os bydd cynnydd sylweddol yn nifer y gweithwyr sydd 'mewn perygl', bydd gan y Pennaeth Datblygu Dynol a Sefydliadol, mewn ymgynghoriad ag undebau llafur ac Aelod y Cabinet dros y Gwasanaeth Corfforaethol a Chydraddoldeb, awdurdod i adfer y cyfyngiadau.

8. **Mynediad i gyfarfodydd**

Yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12 ac 15 Adran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

9. **Diweddariad am y Trafodaethau Cyflog Cenedlaethol, Tachwedd 2021**

**PENDERFYNWYD:** Nodi'r Trafodaethau Cyflog Cenedlaethol fel y manylir arnynt yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd.